

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2016-2017

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2016 i 2017 yn cael ei lunio'n unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Cynnwys

Safonau'r Gymraeg	1
Rhoi'r Safonau ar Waith	2
Safonau Cyflwyno Gwasanaethau	3
Bodloni'r Safonau	3
Safonau Gweithredol	8
Bodloni'r Safonau	8
Gofynion Penodol	12
Safonau Llunio Polisiâu	13
Cwynion	14

Safonau'r Gymraeg

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a osodwyd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru yn nodi cyfres o safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. Cafodd y safonau eu grwpio fel a ganlyn:

- cyflwyno gwasanaethau
- llunio polisiâu
- gweithredol
- hyrwyddo
- cadw cofnodion

Mae Comisiynydd y Gymraeg , o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn gallu gweithredu safonau, a ystyrir yn rhesymol ac yn gymesur, ynghyd â dyddiadau gorfodi; dyddiadau ar gyfer pryd roedd angen cydymffurfio.

Heriwyd 54 o'r Safonau gan y cyngor ym mis Ionawr 2016 ar y sail eu bod yn afresymol ac yn anghymesur o ran graddfa amser, lefelau staffio, neu'r arian ychwanegol a oedd ei angen i gydymffurfio. O ganlyniad, ac yn unol ag adran 60(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r gofyniad i'r cyngor gydymffurfio â'r safonau hyn wedi'i ohirio nes i'r canlynol ddigwydd:

- a) mae'r comisiynydd wedi penderfynu a yw'r gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio, ac
- b) mae hawliau'r cyngor i apelio wedi'u dihysbyddu

Mae Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r cyngor gydymffurfio â nhw wedi'u hatodi i'r ddogfen hon yn **Atodiad 1** (sydd hefyd yn nodi'r safonau sy'n rhan o'r her ac o ganlyniad nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn).

Rhoi'r Safonau ar Waith

Y cyngor sy'n bennaf gyfrifol am roi'r safonau ar waith, gyda'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfriad. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod gan bob aelod o staff rôl i'w chwarae er mwyn gweithredu'r safonau'n llwyddiannus.

Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio rhoi'r safonau ar waith ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o gyfarwyddiaethau'r cyngor yn ogystal ag Aelod Hyrwyddo Cydraddoldeb y Cabinet.

Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi'i ailsefydlu er mwyn cefnogi gweinyddu'r safonau, i helpu i ddatrys materion yn gynnar ac i gefnogi staff wrth gyflwyno gwasanaethau'n unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar y cyngor.

Adroddir ar gamau gweithredu Grŵp Swyddogion y Gymraeg i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Penaethiaid Gwasanaeth y bydd ei nodiadau, yn eu tro, yn cael eu rhoi i dimau rheoli cyfarwyddiaeth unigol i weithredu arnynt/er gwybodaeth.

Bydd Pwyllgor Craffu Polisiâu ac Adnoddau a Bwrdd Cabinet y cyngor yn adolygu rhoi'r safonau ar waith yn rheolaidd a byddant yn gyfrifol am fonitro perfformiad yn erbyn y safonau.

Derbyniodd yr holl uwch-dimau rheoli gyflwyniad ar ofynion Safonau'r Gymraeg, y tebygrwydd â'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol, y gwahaniaethau yn ogystal â gwybodaeth am y safonau hynny sy'n destun ein her.

Diwygiwyd a chyhoeddwyd yr Arweiniad Cymraeg i Weithwyr presennol, ynghyd â dogfennau cefnogi eraill, drwy ddulliau arferol y cyngor gan gynnwys y cylchlythyr mewnol, 'In The Loop'. Mae'r holl wybodaeth a deunyddiau cefnogi sy'n ymwneud â rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith ar gael ar y fewnwyd.

Safonau Cyflwyno Gwasanaethau

Mae Safonau Cyflwyno Gwasanaethau'n effeithio ar bob agwedd ar gyflwyno gwasanaethau o ohebiaeth i gyfarfodydd, o'r wefan i'r holl ddogfennaeth rydym yn ei chynhyrchu. Serch hynny, gan fod y safonau yr oedd yn rhaid i ni gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn, yn debyg iawn i'r ymrwymadau a wnaed yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol, ychydig iawn o waith ychwanegol a oedd ei angen i sicrhau eu gweithrediad.

Serch hynny, mae dulliau amrywiol wedi cael eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff o ofynion y Safonau. Mae'r rhain wedi cynnwys defnyddio cyhoeddusrwydd mewnol, briffio uwch-dimau rheoli, cyfarfodydd tîm a chefnogaeth ar roi'r Safonau ar waith. Mae'r rhain ar gael yn gorfforaethol a chan grwpiau cefnogi cyfoedion.

Er bod nodweddion tebyg i'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol, mae'r Safonau hefyd wedi amlygu cyfyngiadau yn arbennig o ran datblygiadau mewn technoleg. O ganlyniad bu'n rhaid diwygio rhai arferion neu roi arferion newydd ar waith.

Bodloni'r Safonau

Gohebiaeth

Mae'r ohebiaeth groesawu safonol flaenorol yn y ddwy iaith, 'Mae'r cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg' wedi'i addasu i 'Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni' i adlewyrchu gofynion ychwanegol y safonau.

Mae'r testun safonol diwygiedig hwn wedi'i gynnwys fel pennawd ar bob templed llythyr ac mae ar gael yn electronig ar y fewnrwyd.

Dewis iaith

Crëwyd ffurflen i bobl ei chwblhau sy'n gysylltiedig â chronfa ddata a fydd yn ein galluogi i nodi dewis iaith person, a bydd yr wybodaeth honno'n cael ei defnyddio wrth gysylltu â'r person yn y dyfodol. Mae llofnodion e-bost wedi'u diwygio i gynnwys y testun priodol sy'n gwahodd pobl i ddefnyddio Cymraeg wrth ddelio â'r cyngor. Llofnodion e-bost safonedig ydynt ac maent ar gael ar y fewnrwyd.

Y Prif Rif Ffôn

Yn y gorffennol, roedd y cyngor yn defnyddio rhifau ffôn Cymraeg a Saesneg ar wahân fel ei brif rif cyswllt. Serch hynny, dilëwyd y rhif ffôn Cymraeg ac, yn unol â'r safonau, cyflwynwyd un rhif ffôn a oedd yn rhoi mynediad tòn gyffwrdd i wasanaeth Cymraeg.

Recriwtiwyd aelod ychwanegol o staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn helpu i reoli'r cynnydd tebygol mewn galwadau ffôn Cymraeg drwy'r prif rif ffôn.

Yn ystod 2016-2017, cofnodwyd 1364 (0.94%) o alwadau i'r gwasanaeth Cymraeg drwy'r prif rif ffôn. Y cyfanswm galwadau a dderbyniwyd ar gyfer yr un cyfnod drwy'r prif rif ffôn oedd 144,785. Mae hyn yn cymharu â 2015-2016 lle roedd y ffigurau'n 103 (0.064%) ac yn 158,847 yn ôl eu trefn. Dyma berfformiad y cyngor wrth ateb galwadau Cymraeg o'i gymharu â galwadau Saesneg yn ystod yr un cyfnod:

	Galwadau Cymraeg	Galwadau Saesneg
Amser cyfartalog i ateb	18 eiliad	21 eiliad
Cyfradd wedi'i gadael (wedi'i haddasu ar gyfer gadael yr alwad o fewn 5 eiliad)	11.14%	3.71%

Galwadau ffôn i linellau uniongyrchol

Mae gofynion y Safonau o ran ateb galwadau ffôn i linellau uniongyrchol yn cyd-fynd ag arfer a gweithdrefnau sefydledig yn y cyngor ac mae'r rhain wedi'u hatgyfnerthu i staff drwy nodiadau arweiniol, cyfarfodydd tîm a dulliau hysbysu mewnol eraill.

Cysylltwyd â staff a oedd yn hyfedr yn y Gymraeg a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau iaith i helpu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg naill ai yn eu maes gwaith neu'n fwy cyffredinol ar draws gwasanaethau eraill. O'r 322 o staff y cysylltwyd â hwy (staff a nododd sgiliau iaith rhugl/gweddol rugl ym mis Mawrth 2016), ymatebodd 63 yn gadarnhaol gyda 42 yn fodlon defnyddio'r Gymraeg ar gyfer eu maes gwaith hwy'n unig.

Diweddarwyd y cyfeiriadur gweithwyr gyda'r wybodaeth hon ac mae'n hygyrch i'r holl staff i sicrhau y gellir dod o hyd i siaradwr Cymraeg yn hawdd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg pan fydd angen.

System annerch y theatr

Mae gwybodaeth am drefniadau arferol a chwaraeir ar ddechrau sioeau etc, yn y theatrau wedi'i chyfieithu gyda'r wybodaeth Gymraeg yn cael ei chwarae'n gyntaf.

Cyfryngau cymdeithasol

Mewn ymateb i Safonau'r Gymraeg, mae cyfrifon Twitter a Facebook Cymraeg wedi'u creu. Yn gywir ar 31 Mawrth 2017:

Twitter

Dilynwyr y cyfrif corfforaethol Saesneg	-	10,705
Dilynwyr y cyfrif corfforaethol Cymraeg	-	98

Facebook

Dilynwyr y cyfrif corfforaethol Saesneg	-	4,783
Dilynwyr y cyfrif corfforaethol Cymraeg	-	22

Yn ogystal â'r rhain, mae gan feysydd gwasanaeth eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain, ac mae 75 ohonynt ar draws y cyngor.

Y wefan wedi'i diweddaru ac yn ddwyieithog

Fel rhan o ymgyrch barhaus y cyngor i ddarparu gwybodaeth gliriach a mwy hygyrch, ymgwymerwyd â gwaith i ddiweddaru a symleiddio'r wefan yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano'n ddwyieithog.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd 91% o'n tudalennau ar gael yn Gymraeg. Mae'r ganran hon wedi cynyddu ers hynny, gyda 99.9% o'n tudalennau bellach yn ddwyieithog ar y wefan (31 Mawrth 2017). Mae hyn yn welliant sylweddol o ystyried mai 39% yn unig o'n gwe-dudalennau oedd yn ddwyieithog ym mis Awst 2014.

Yn ystod 2016-2017, cafwyd 2,838,679 o ymweliadau â'n gwefan, gyda 21,230 (0.75%) o'r rhain ar y gwe-dudalennau Cymraeg; mae hyn yn cymharu â 2015-2016, lle cafwyd 2,896,429 o ymweliadau â'n gwefan gyda 19,738 (0.68%) o'r rhain ar y gwe-dudalennau Cymraeg.

Grantiau

Mae staff wedi cael gwybod am y gofynion hyn o ran ceisiadau am grantiau. Mae ffurflenni cais a/neu wybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am grantiau wedi cael eu diweddarau ac maent yn cynnwys, lle y bo'n briodol, destun i fodloni'r gofynion hyn. Mae gwaith i ddiwygio'r broses cyflwyno cais am Grantiau'r Trydydd Sector ar gyfer 2017-2018 bron wedi'i gwblhau a bydd yn cynnwys yr holl ystyriaethau perthnasol o dan Safonau'r Gymraeg.

Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Ers ei Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf, mae'r cyngor wedi bod yn ymrwymedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn yr ardaloedd hynny lle mae'r iaith yn amlwg, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd lle bo angen. Mae gweithdrefnau ar gyfer trefnu'r fath gyfarfodydd wedi'u hen sefydlu ac wedi aros yr un peth ar y cyfan. Serch hynny, mae gofynion manylach y safonau wedi galw am rai diwygiadau bach sydd wedi'u cynnwys yn yr arweiniad diwygiedig i staff.

Er bod nifer y digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan y cyngor wedi gostwng dros y blynyddoedd diweddar, mae gweithdrefnau ar gyfer trefnu digwyddiadau'n parhau ac, fel gyda gweithdrefnau ar gyfer trefnu cyfarfodydd cyhoeddus, maent wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r Safonau ac wedi'u cyfleu i'r holl staff.

Derbynfeydd

Mae bathodynau sy'n dynodi siaradwr Cymraeg/dysgwyr Cymraeg ar gael i'r holl staff gan gynnwys y rhai mewn derbynfeydd. Ceir arwyddion sy'n croesawu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhrif dderbynfeydd Canolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot.

I helpu gyda'r cynnydd tebygol yn nifer yr ymwelwyr â Siopau Dan yr Unto a fyddai am ddefnyddio'r gwasanaeth Cymraeg, recriwtiwyd prentis modern sy'n siarad Cymraeg. Er bod y safon ynghylch darparu gwasanaeth

derbynfa Cymraeg yn cael ei herio, yn ystod 2016-2017 roedd 26 o bobl (0.03%) wedi dymuno a gallu cynnal eu hymholiad yn Gymraeg, allan o 71,589 o ymholiadau.

Safonau Gweithredol

Mae'r Safonau Gweithredol yn ymwneud yn bennaf â swyddogaethau adnoddau dynol a gweinyddiaeth fewnol y cyngor. Mae nifer o'r safonau hyn yn adlewyrchu ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol; gan gynnwys hyfforddiant, gofynion iaith a hysbysebu swyddi. Serch hynny, mae gofynion y safonau'n rhagori ar yr ymrwymadau blaenorol, yn arbennig o ran swyddogaethau adnoddau dynol.

Ar hyn o bryd, mae'r cyngor wrthi'n datblygu porth i weithwyr a fydd yn galluogi staff i ddiweddarau/olygu eu manylion presennol e.e. enw, cyfeiriad, sgiliau iaith a gwybodaeth bersonol arall. Cynhaliwyd yr wybodaeth hon yn y gorffennol ar system AD ganolog a oedd yn caniatáu mynediad cyfyngedig gan reolwyr a gweithwyr AD. Bydd y porth hwn yn galluogi staff i ddiweddarau gwybodaeth bersonol yn y fan a'r lle ac ar amser sy'n gyfleus iddynt. Y bwriad yw y bydd y porth ar gael i staff drwy'r rhyngryd, ar ffonau symudol a dyfeisiau eraill.

Bodloni'r Safonau

Polisiau

Mae'r holl bolisiau a nodwyd yn y Safonau wedi'u cyfieithu a bellach maent ar gael i staff drwy adran Adnoddau Dynol y fewnrwyd.

Llofnodion e-byst a negeseuon allan o'r swyddfa

Yn ystod tymor y gwanwyn 2016, ailddyluniwyd llofnodion e-bost i gyhoeddi ymgyrch y cyngor i weithio mewn ffordd fwy digidol fel rhan o'r ymgyrch 'Symud'. O ganlyniad, roedd cyfle i ddiwygio cynnwys llofnodion e-bost i gynnwys gofynion y safonau. Lluniwyd dwy fersiwn o'r llofnodion e-bost, ar gyfer siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg; mae'r logo 'Cymraeg' yn cael ei gynnwys ar lofnod siaradwyr Cymraeg.

Mae'r llofnodion e-bost diwygiedig hyn, ar gyfer siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, ar gael ar y fewnrwyd a chânt eu hyrwyddo drwy sianeli eraill hefyd, e.e. cylchlythyr mewnol, cyfarfodydd tîm a sesiynau briffio'r uwch-reolwyr. Mae'r llofnodion e-bost hyn yn **Atodiad 2**.

Mae aelodau wedi cael eu hannog i ddefnyddio'r llofnodion e-bost dwyieithog safonol hyn. Mae'r llofnodion e-bost wedi'u diweddarau'n cael eu cynnwys yn rhaglen sefydlu aelodau newydd a ddatblygwyd ar gyfer cynghorwyr newydd yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017.

Mae amrywiaeth o negeseuon 'allan o'r swyddfa' wedi cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ac maent ar gael ar y tudalennau Cymorth a Chefnogaeth yn adran Safonau'r Gymraeg y fewnrwyd. Yn ogystal, mae teitlau swyddi presennol wedi cael eu cyfieithu i'w defnyddio ar lofnodion e-bost a dulliau gohebu eraill.

Gwybodaeth a chefnogaeth

Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg ar gael ar y fewnrwyd. Mae dogfennaeth gefnogi sy'n cynnwys, er enghraifft, lofnodion e-bost, arweiniad i staff, yr hysbysiad cydymffurfio a sut i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu, ar gael yn adran Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd. Mae tudalennau AD sy'n cynnwys gwybodaeth am bolisiâu, swyddi gwag a dogfennaeth berthnasol arall hefyd ar y fewnrwyd.

Asesu Sgiliau Cymraeg

Mae sgiliau iaith yn parhau i gael eu cofnodi ar gyfer gweithwyr newydd drwy'r ffurflen cais am swydd. Fel rhan o'r gofynion newydd gofynnwyd i staff, y nodwyd bod ganddynt sgiliau Cymraeg yn y gorffennol, i gadarnhau/diweddaru eu gallu ieithyddol. Mae'r ymarfer hwn wedi arwain at ddarlun mwy cywir o'r gallu presennol ymhlith staff.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r rhai a oedd yn nodi eu bod yn rhugl/weddol rugl i nodi eu gallu a'u parodrwydd i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn eu maes gwasanaeth neu unrhyw faes gwasanaeth er mwyn darparu gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd pe bai angen.

Swyddi gwag

Yn ystod y flwyddyn, mae'r holl swyddi newydd neu wag wedi'u hasesu ynghylch yr angen am sgiliau Cymraeg drwy 'ffurflen manylion swydd' a gyflwynir gan reolwyr i'r Tîm Gwybodaeth am y Gweithlu, a'i recordio ganddynt. Mae manylion ynghylch nifer a chategori'r swyddi a aseswyd ar gyfer sgiliau iaith yn yr adran 'gofynion penodol' isod.

O ran swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, cafodd cyfanswm o 94 eu hysbysebu yn Gymraeg a'r gofyniad wedi'i nodi yn yr hysbysiad.

Meddalwedd cyfrifiadurol

Mae gwiriwr sillafu Cymraeg ar gael yn Windows a Microsoft a chaiff ei osod ar gyfrifiaduron a gliniaduron ar gais.

Hyfforddiant yn y Gymraeg

Mae adran Hyfforddiant a Datblygiad ar y fewnwyd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i ddarparu gwybodaeth i staff gan gynnwys cysylltiadau i ddogfennaeth arweiniol (e.e. Cynnig Actif, Mwy Na Geiriau etc.) a grŵp sgwrsio Cymraeg 'Sgwrs' a chyfleoedd hyfforddiant a datblygiad Cymraeg.

Mae cyrsiau 'Cyflwyniad i Ddysgu Cymraeg' 10 wythnos (20 awr) ar gael i staff â diddordeb mewn dysgu Cymraeg, gan gynnwys rheolwyr. Mae cyrsiau 'Cymraeg i Oedolion' hefyd ar gael i staff sy'n cynnig hyfforddiant o ddechreuwyr i lefel uwch. Telir am y cyrsiau drwy gyllidebau hyfforddiant, a rhoddir diwrnod i chi fynd ar y cwrs. Mae cyfleoedd i gyrchu cyrsiau 'Dysgu Cymraeg ar gyfer Gwaith' drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, gyda'r bwriad i gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn yr ardal.

Mae grŵp/fforwm anffurfiol 'Sgwrs' wedi ei greu i staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gartref ac yn y gymuned. Mae pob gallu, o ddysgwyr i siaradwyr rhugl, yn cael eu hannog i ddod iddo.

Mae sawl cyhoeddiad ar gael i'w fenthyg gan y Tîm Dysgu, Hyfforddiant a Datblygu. Maent yn cynnwys llyfrau ymadroddion, llyfrau cyrsiau, geiriaduron a llyfrau stori. Darperir cyrsiau ymwybyddiaeth Cymraeg i weithwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Mae'n rhaid i holl fyfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n gweithio i'r cyngor fynd ar hyfforddiant ymwybyddiaeth Cymraeg.

Archwilir y syniad o gwrs e-ddysgu ymwybyddiaeth Cymraeg drwy Academi Cymru Gyfan ar gyfer Llywodraeth Leol.

Gwybodaeth i weithwyr newydd

Mae ein cwrs sefydlu corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau Cymraeg ac mae'n annog rheolwyr i drafod a gwneud gweithwyr newydd yn ymwybodol o Safonau'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae rhannau eraill o'r sesiwn sefydlu'n cynnwys llunio llofnodion dwyieithog, ateb y ffôn yn ddwyieithog etc.

Gofynion penodol

Gweler nifer y gweithwyr â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd blwyddyn 2016/2017 isod:

Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn weddol rugl	181
Siarad Cymraeg yn weddol rugl	131
Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl	425
Siarad Cymraeg yn rhugl	101
Dysgwr Cymraeg	716
Cyfanswm	1554

Er mwyn cynorthwyo gyda chadw cofnodion cywir, mae porth i weithwyr yn cael ei ddatblygu i staff er mwyn diweddarau eu cofnodion, ac felly bydd y data a gedwir yn fwy cywir.

Mae nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod 2016-2017 wedi'u categorio fel a ganlyn:

Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	79
Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	15
Nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	313
Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl penodiad i'r swydd	0

Safonau Lluio Polisiâu

Mae asesu effaith polisiâu newydd a diwygiedig ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig wedi bod yn elfen allweddol wrth ddatblygu polisi dros nifer o flynyddoedd. Er nad oedd gofyniad cyfreithiol i ystyried y Gymraeg yn y gorffennol wrth asesu effaith, mae wedi bod yn arfer gan y cyngor i'w chynnwys fel 'nodwedd warchoddedig' a'i thrin yn unol â hynny.

Serch hynny, wrth gyflwyno Safonau'r Gymraeg mae ystyried effaith y Gymraeg bellach yn ofyniad cyfreithiol ac mae'r ffurflen Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac arweiniad cysylltiedig wedi'u haddasu'n unol â hyn gan sicrhau bod y gofynion yn cael eu hystyried yn effeithiol ac yn gyson wrth ddatblygu polisi newydd neu ddiwygio un presennol.

Mae adran asesu'r fframwaith wedi'i chryfhau er mwyn galluogi'r rhai sy'n datblygu neu'n diwygio polisi i archwilio'n llawn effaith/effeithiau'r polisi o ran y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a thriniaeth gyfartal ohoni.

Yn ogystal, mae adran ymgynghori'r arweiniad wedi'i hehangu i gynnwys y pwnc yn llawnach gyda gofynion y Gymraeg yn cael eu cynnwys am y tro cyntaf.

Mae'r ffurflen Aseiad Effaith Cydraddoldeb ddiwygiedig a'r arweiniad cysylltiedig ar gael i'r holl staff ar dudalen Aseiad Effaith Cydraddoldeb yr Hwb Perfformiad ar y fewnwyd.

Cwynion

Cafwyd tair cwyn yn ystod 2016-2017; dwy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau Cyflwyno Gwasanaethau a'r drydedd yn ymwneud â'r Gymraeg. Derbyniwyd dwy gŵyn drwy Gomisiynydd y Gymraeg ac un yn uniongyrchol i faes gwasanaeth.

Mae'r cwynion a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Awst 2016 yn parhau i gael eu trin drwy broses gwynion y Comisiynydd ac er bod y cyngor wedi ymateb i'r ceisiadau am wybodaeth ac argymhellion, ni chafwyd penderfyniad terfynol eto.

Er y derbyniwyd y drydedd gŵyn dros y ffôn ac nid drwy ohebiaeth ysgrifenedig yn unol â'r safon, ystyrir ei bod yn briodol cyfeirio ati yn yr adroddiad hwn. Roedd y gŵyn yn herio'r defnydd o'r Gymraeg mewn taflen am y gwasanaethau gwastraff, ond ni chafodd ei chynnal gan fod y testun Cymraeg yn ramadegol gywir.